





ADRODDIAD
BLYNYDDOL
2017

CYSYLLTWCH Â NI

 Hospis Tŷ'r Eos,
Ffordd Caer, Wrecsam LL11 2SJ

 01978 316800

 info@nightingalehouse.co.uk

 www.nightingalehouse.co.uk

 nightingalehouse

 nightingalehh

EIN DALGYLCH

Mae ein siopau yn rhan hanfodol o'r gymuned leol ac maent yn sbarduno ymdrechion llwyddiannus i godi arian. Mae gennym ni siopau yn Wrecsam, yr Wyddgrug, Cefn Mawr, Rhosllannerchrugog, y Fflint, yr Eglwys Wen, Ellesmere a Chroesoswallt.

Bellach, Grwpiau Cynnal yw wyneb ein hosbis yn y gymuned, ac maent yn gweithredu fel llysgenhadon i'n gwaith. Rydym ni'n ffodus fod gennym ni gynrychiolwyr yn yr ardaloedd hyn: y Bala, Corwen, Hanmer, Lavister, Coed Llai, Llangollen, yr Wyddgrug, Rhosllannerchrugog a Wrecsam.


DATGANIAD CENHADAETH

Darparu gwasanaeth Gofal Lliniarol Arbennig i gleifion sydd â chlefydau penodol sy'n cyfyngu ar hyd eu bywyd, ac sy'n byw o fewn y dalgyllch yng Ngogledd-ddwyrain Cymru a'r Gororau, a chynorthwyo eu teuluoedd, o fewn amgylchedd gofalgar.

Gwneir hyn gan aelodau o dîm amlddisgyblaethol sydd wedi cael eu hyfforddi'n arbenigol, ac sy'n darparu dulliau o reoli symptomau, asesiadau, gofal diwedd oes, a chymorth emosiynol rheolaidd i berthnasau a gofalwyr, cymorth ynghylch profedigaeth, addysg a gwybodaeth.

CYFARWYDDWYR AC AELODAU O'R PWYLLGOR YMDDIRIEDOLWYR

Mr M Edwards (Llywydd)
Mrs E Griffiths (Cadeirydd)
Dr N Braid
Dr J Duguid
Cllr J Lowe
Mr A Morse
Mr C Burgoyne
Mr G Greasley
Mr P Maddocks
His Honour P Hughes
Mrs V Varley
Mr R Cole



Sefydliad Hospis a Chanolfan Cymorth Canser Wrecsam
Rhif Elusen Gofrestredig: 1035600 (Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr)

CROESO

Mae'n bleser mawr cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol yr Hospis am 2017. Mae wedi bod yn flwyddyn heriol arall, ond yn un weddnewidiol hefyd.

Thema'r adroddiad eleni yw 'cyllid o safbwynt y byd go iawn', ac rydym ni'n gobeithio cynnig cipolwg ar ein gwaith a dealltwriaeth gwell o gwmpas ac ehangder ein gweithgareddau a'r heriau rydym ni'n eu hwynebu yn feunyddiol.

Yn gyntaf, hoffwn gynnig trosolwg o'n gwasanaethau, i ddwyn sylw at ein dulliau niferus o wasanaethu ein cymuned.

Mae ein gwasanaethau yn cynnwys darparu unedau i gleifion mewnol a gofal dydd, adsefydlu, sesiynau galw heibio ar ddydd Llun, a chymorth ysbrydol, cymorth bugeiliol, cymorth ynghylch profedigaethau a chymorth cymdeithasol.

Mae tîm amlddisgyblaethol yn gofalu am ofal pob claf, ac mae'n cynnwys staff nyrsio, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol, a thîm cynorthwyo teuluoedd, therapydd cyflenwol a gwirfoddolwyr. Maent oll yn darparu gofal a chymorth lliniarol cyflawn i gleifion a'u teulu.

Rydym ni'n parhau i fod yn hyblyg ac arloesol i sicrhau ein bod ni'n darparu gofal rhagorol sy'n datblygu er mwyn diwallu anghenion newidiol ein cleifion yn ystod cyfnod eu salwch sy'n cyfyngu ar hyd eu hoes. Oherwydd hynny, rydym ni'n cydweithio â grwpiau arbenigol, megis Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor. Mae'r partneriaethau hyn yn helpu ein timau clinigol a nyrsio i sicrhau eu bod ar flaen y gad ym maes gofal i gleifion a darparu gwasanaethau.

Mae'n bwysig i ni ganfod dulliau newydd o allu cynnig ein gwasanaethau i ragor o gleifion a'u teulu.

Ar 1 Mawrth 2017, fe wnaethom ni lansio grŵp cyfeillio yng Nghoedpoeth, ein trydydd grŵp o'r fath, gan ychwanegu at waith y grwpiau hynny oedd eisoes yn cael eu cynnal yn llwyddiannus yn Llandderfel a Llangollen. Mae'r gwasanaeth cyfeillio yn bwysig oherwydd mae'n sicrhau fod unigolion sydd ar eu pen eu hunain neu'n agored i niwed yn cael cymorth cyfaill gwirfoddol hyfforddedig i'w cynorthwyo i gynnal cysylltiadau hanfodol â'u cymuned.

Fe wnaethom ni hefyd lansio dwy fenter newydd yn 2017: Yn gyntaf, ein Prosiect ynghylch Methiant y Galon, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Sefydliad Elusennol St James' Place, i ddarparu clinigau

cleifion allanol ar gyfer cleifion methiant y galon sydd ag anghenion cymhleth sy'n newid yn gyflym, a grŵp ffocws ynghylch methiant y galon.

Yn ail, fe wnaethom ni gyfuno ein timau gwaith cymdeithasol a chaplaniaeth i sefydlu'r Tîm Cymorth i Deuluoedd er mwyn darparu gwasanaeth gwell, mwy amserol a mwy cyflawn ar gyfer ein cleifion a'u teulu.

I wella ein gofal arbenigol ymhellach, rydym ni wedi sefydlu swydd datblygu ar gyfer Uwch-ymarferydd Nyrsio i ddarparu cyfle newydd i staff presennol ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau a dod yn bresgripsiynwyr anfeddygol, gan ychwanegu gwerth at ein gallu i ymateb i anghenion cleifion o ran eu symptomau a rheoli poen.

Mae darparu ein holl wasanaethau yn fwy effeithiol a'u hehangu ymhellach i'n cymuned yn rhan anhepgor o barhad ein cynllun datblygu. Ni fyddai unrhyw ran o'r gwaith hwn yn bosibl heb barhad eich cymorth chi, sef ein cymuned, o ran arian ac amser.

Hoffai fy nghydweithwyr sy'n aelodau o'r Bwrdd a minnau ddiolch i chi am eich ffyddlondeb a'ch haelioni sy'n sicrhau y gall Hospis Tŷ'r Eos barhau i ddarparu'r gofal lliniarol gorau posibl. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'n staff a'n gwirfoddolwyr gweithgar ac ymroddgar am ddarparu gofal a chymorth rhagorol i'n cleifion a'u teulu. Diolch hefyd i fy nghyd-ymddiriedolwyr am eu cymorth a'u hymroddiad.

Eluned Griffiths
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr



MAE STORI AM FYWYD GO IAWN WRTH WRAIDD YR HOLL YSTADEGAU

Cafodd **Eddie Foulkes** (*yn y llun*) ei gyfeirio'n wreiddiol at ein gwasanaeth galw heibio gan y Ganolfan Gwybodaeth am Ganser ar ôl cael diagnosis o ganser y prostad yn 2012. Bedair blynedd yn ddiweddarach, cafodd y newyddion drwg fod y clefyd wedi lledaenu i'w esgyrn. Fe wnaeth Eddie fagu plwc i ganfod pa gymorth y gallem ni ei gynnig.

Cychwynnodd Eddie ymweld â'n hospis fel claf allanol, ac yna, cafodd ei gyfeirio at y ddarpariaeth gofal dydd. Yna, defnyddiodd lawer o'n gwasanaethau yn cynnwys gofal dydd, Cuckoos, gwasanaethau i gleifion mewnol, ffisiotherapi at ddibenion adsefydlu, y gaplaniaeth, y tîm cynorthwyo teuluoedd, therapi celf a therapi cyflenwol.

"Defnyddiais y pwll hydrotherapi'n aml iawn i ddechrau oherwydd roedd diffyg nerth yn fy nghoesau. Yna, cefais i therapi cyflenwol, ac fe wnes i fwynhau hynny'n fawr."

Fe wnaethom ni helpu Eddie i nodi ei anghenion, rheoli ei boen a'i helpu â'i symudedd trwy gyfrwng hydrotherapi a ffisiotherapi. Pan sefydlogodd ei symptomau, cafodd adael y ddarpariaeth gofal dydd, ond fe wnaeth barhau i fynychu ein Grŵp Cuckoos, sy'n caniatáu i gleifion sydd wedi gadael darpariaeth gofal dydd barhau i gwrdd yn gymdeithasol i gynorthwyo ei gilydd. Roedd Eddie yn hoff iawn o'r bobl y gwnaeth gwrdd â hwy trwy gyfrwng y Grŵp Cuckoos, a maes o law, daeth yn gadeirydd y grŵp, a rhoddodd hynny ymdeimlad o bwrpas iddo.

"Mae'n lle sy'n llawn bywyd. Roeddwn i'n swil iawn, a dweud y gwir, ond rwyf i wedi dysgu sut i wneud ffrindiau. Mae hynny wedi fy nghynorthwyo i ddod allan o fy nghragen."





“Roedd pawb yn yr hospis yn adnabod Eddie yn dda ac rydym ni’n gweld ei golli yn fawr.”

-Kay Ryan

Wrth i’w gyflwr waethgu, cafodd ei gyfeirio unwaith yn rhagor i gael gofal dydd er mwyn gallu monitro ei symptomau a rheoli ei boen.

Roedd Eddie wrth ei fodd â therapi celf ac fe wnaeth ei waith gyda’n therapi celf roi ymdeimlad cryf o lwyddo iddo; rhoddodd hynny hwb i’r hyder a’i hunan-barch.

“Rwyf i’n wastad wedi mwynhau celf, felly roedd dilyn cwrs yn yr hospis a dysgu nifer o dechnegau newydd yn wych. Rwy’n falch iawn o fy llwyddiannau.”

Fe wnaeth ymweld â’r capel pan oedd yn mynychu gofal dydd gynnig cysur mawr iddo, er na ystyriai ei hun yn rhywun crefyddol.

“Byddaf yn mynd i’r capel, ac mae hynny’n help mawr i mi. Byddwn ni’n mynd fel grŵp. Nid oeddw’n i erioed yn eglwyswr, ond mae hynny’n cynnig cysur mawr i mi bellach.”

Roedd Eddie yn fawr ei barch ymhlith ein staff, ein cleifion a’n gwirfoddolwyr, oherwydd sut llwyddodd i fyw â chanser datblygedig, a’i ddull o helpu ac annog eraill pan oedd pethau’n anodd iddynt.

“Heb yr hospis a’r holl staff a gwirfoddolwyr anhygoel, wn i ddim ble byddwn i.”

EDDIE FOULKES 1958 - 2018

MAE STORI AM FYWYD GO IAWN WRTH WRAIDD YR HOLL YSTADEGAU



20

O SESIYNAU THERAPI CELF



45

O GLEIFION MEWNOL WEDI
DYCHWELYD ADREF



97

O SESIYNAU YNGHYLCH
PROFEDIGAETH I OEDOLION



110

O SESIYNAU YNGHYLCH
PROFEDIGAETH I BLANT



119

O GLEIFION MEWNOL
NEWYDD WEDI'U DERBYN



139

O GLEIFION MEWNOL



146

O SESIYNAU THERAPI CERDD



272

O ALWADAU WEDI'U HATEB
GAN LINELL GYMORTH
24 AWR YR HOSPIS



285

O SESIYNAU HYDROTHERAPI
WEDI'U CYNNAL



319

O BOBL WEDI MYNYCHU
CYRSIAU HYFFORDDI



325

OEDD CYFANSWM Y
PRESENOLDEB YN Y
RHAGLEN DYDD LLUN



423

O SESIYNAU THERAPI
GALWEDIGAETHOL



1016

O SESIYNAU THERAPI
CYFLENWOL



1040

OEDD CYFANSWM Y
PRESENOLDEB YN Y
SESIYNAU GOFAL DYDD



1161

O SESIYNAU FFIOTHERAPI



103,670

OEDD CYFANSWM YR ORIAU
O WAITH GWIRFODDOL



£13

YW'R SWM SYDD EI ANGEN I
FWYD CLAF AM 1 DIWRNOD



£42

YW'R SWM SY'N ARIANNU
1 SESIWN YNGHYLCH
PROFEDIGAETH



£500

YW'R SWM SY'N CYNNAL YR
AMBIWLANS AM 1 MIS



£7,422

YW'R SWM SY'N ARIANNU'R
HOSPIS AM DDIWRNOD

CANOLBWYNTIO AR ADSEFYDLU

YN 2017, FE WNAETHOM NI GYNNAL 5203 O SESIYNAU AR GYFER CLEIFION, AC ROEDD CANRAN SYLWEDDOL OHONYNT YN CYNNWYS GOFAL ADSEFYDLU. FEL LLAWER O’N CLEIFION, CAFODD EDDIE FOULKES AMRYWIAETH O WASANAETHAU ADSEFYDLU.

Fe wnaeth Eddie gyfrannu’n sylweddol at y gwaith o bennu ei gynllun gofal adsefydlu penodol. Byddwn yn canolbwyntio’n sylweddol ar nodau personol ac yn cynnig diwylliant o alluogi, a thrwy gyfrwng hynny, bydd tîm amlddisgyblaethol yr hosbis yn cynorthwyo cleifion i gyflawni eu blaenoriaethau. Mae’n hyrwyddo dewis, annibyniaeth ac urddas. Mae’r dull hwn yn galluogi pobl sydd â chyflyrau sy’n cyfyngu ar hyd eu bywyd i fyw mor annibynnol ac mor llawn ag y gallant. Rydym yn gweithio i gyflawni nodau cleifion trwy raglen gefnogol o waith adsefydlu. Gall hyn gynnwys addysgu a chynghori ynghylch ymarferion, gwneud tasgau gweithredol yn rheolaidd a chymorth a chngor ynghylch addasu yn unol â newidiadau i iechyd ac amgylchiadau personol.

Mae ein tîm adsefydlu yn cynnwys therapydd galwedigaethol, uwch ffisiotherapydd, ffisiotherapydd a dau gynorthwydd therapi.

PA WASANAETHAU RYDYM NI’N EU CYNNIG?

- Hydrotherapi
- Sesiynau yn y gampfa (yn cynnwys Wii Fit)
- Rheoli diffyg anadl
- Rheoli blinder
- Ymlacio
- Rheoli poen (yn cynnwys rheoli poen heb gymryd moddion trwy gyfrwng TENS ac aciwbigo)
- Cngor ynghylch trafod â llaw

“ Rwy’n edifarhau’n fawr na wnes i ddefnyddio gwasanaethau ffisiotherapi’r hospis pan gefais i’r dewis yn y lle cyntaf. Defnyddiais ddarparwr gwasanaeth arall i gychwyn, ond nid oeddent yn gallu fy helpu.

Rwy’n cyfaddef fy mod i wedi bod yn amharod i fynd i hospis, ond rwyf i wedi elwa o bopeth mae’r tîm wedi’i wneud i mi; maent mor broffesiynol a chyfeillgar. ”

- Steve Bates, un o’r cleifion (yn y llun)

Bob dydd Llun, byddwn yn cynnal rhaglen galw heibio sy’n cynnig cyfle i gleifion a’u hanwyliaid gael cyngor, gwybodaeth a chymorth arbenigol. Mae’r sesiynau yn cynnig cyfle i bobl siarad â rhywun am eu pryderon. Yn ogystal â’n rhaglen galw heibio ar ddydd Llun, byddwn yn cynnal rhaglen ynghylch methiant y galon bob dydd Mawrth ar gyfer pobl sydd â chyflyrau datblygedig methiant y galon. Rydym ni’n cynnig tri apwyntiad un awr i gleifion allanol sy’n caniatáu digon o amser i bobl drafod eu symptomau cymhleth a’u hanghenion unigol â nyrs sy’n arbenigo yng nghyflyrau methiant y galon a’n cydlynnydd gwasanaethau i gleifion allanol.

ENGHREIFFTIAU O WEITHGAREDD RHAGLEN DYDD LLUN:



- Sgyrsiau pwysig
- Sut i reoli diffyg anadl
- Sut i ddatblygu eich cydnerthedd
- Rheoli blinder
- Bod yn weithgar
- Sut i ymlacio a chael noson dda o gwsg

Nod gyffredinol ein gwasanaethau adsefydlu yw cynorthwyo pobl i barhau i fyw gartref cyhyd ag y gallant, a chynnal eu hannibyniaeth a’u hurddas.





YR YSTADEGAU SYDD WRTH WRAIDD Y STORI

INCWM YR HOSPIS £2.743M



GWARIANT YR HOSPIS £2.709M



BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

CYFRANNU NWDYDDAU

Bydd ein siopau elusennol bob amser yn chwilio am stoc newydd, yn cynnwys dillad, trugareddau neu ddodrefn. Yn 2017, fe wnaeth ein siopau godi £238,707 (heb gynnwys Rhodd Cymorth) tuag at gynnal ein gwasanaethau i gleifion, ac fe wnaeth hynny ariannu'r hospis am 31 diwrnod.

LOTERI'R HOPIS

Ymunwch â'n loteri am £1 yr wythnos yn unig a gwnewch wahaniaeth. Eleni, fe wnaeth ein loteri elw o £464,467, a defnyddiwyd pob ceiniog i gynnal ein gwasanaethau i gleifion, ac fe wnaeth hynny ariannu'r hospis am 60 diwrnod.

Mae manylion llawn y cyfrifon cyfunol ar gael gan Dŷ'r Cwmniâu.